**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Is-adran Llywodraeth Leol a Thrawsnewid
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: LGPartnerships@llyw.cymru

**Cwestiynau Ymgynghori**

Cwestiwn 1: A yw'r math o gymwysterau a bennir yn rhoi hyder ichi fod y clerc yn meddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth graidd i helpu cyngor cymuned i arfer y pŵer cyffredinol newydd?

Ydy ☒ Nac ydy ☐

Os nad ydy, pam?

/

Cwestiwn 2: A yw disgrifiad pob teitl yn ei gwneud yn glir pa gymwysterau sy'n cael eu pennu?

Ydy ☒ Nac ydy ☐

Os nad ydy, pam?

/

Cwestiwn 3: A oes unrhyw gymwysterau sectoraidd priodol eraill y dylid ystyried eu cynnwys yn y rheoliadau drafft?

Nodwch pa rai ac esboniwch pam y gallent fod yn berthnasol.

/

**Cwestiwn 4**: Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r rheoliadau drafft yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Eglura'r ddogfen ymgynghori y gall ymgeiswyr ar gyfer y Dystysgrif mewn Gweinyddu'r Cyngor Lleol (CiLCA) gyflwyno eu portffolio yn Gymraeg neu yn Saesneg, a bod aseswr sy'n siarad Cymraeg ar gael i asesu portffolios Cymraeg. Rydym yn cefnogi hyn yn gryf. Mae'n cydnabod statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru, a sefydlwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Trwy hwyluso defnyddio'r Gymraeg, mae hefyd yn cefnogi nod strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chynyddu defnydd o'r Gymraeg.

**Cwestiwn 5**: Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r rheoliadau drafft gael eu llunio neu eu newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Eglura'r ddogfen ymgynghori bod y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn diweddaru cymhwyster y CiLCA ar gyfer Cymru er mwyn cynnwys modiwl penodol ar weithredu'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yng Nghymru. Nodir y byddai'r modiwl hwn hefyd ar gael fel modiwl ar ei ben ei hun ar gyfer clercod sy'n dal unrhyw un o'r cymwysterau a bennir yn y rheoliadau drafft. Rydym yn cefnogi'r penderfyniad i wneud y cymhwyster yn berthnasol i sefyllfa benodol cynghorau cymuned yng Nghymru. Fe'ch anogwn yn gryf i drafod â'r Gymdeithas sut i wneud y cymhwyster yn fwy perthnasol a mwy gwerthfawr fyth, drwy gynnwys modiwl a fyddai'n sicrhau dealltwriaeth o statws a sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru. Hynny yw, byddai'n hyfforddi clercod i fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- statws swyddogol yr iaith Gymraeg yng Nghymru yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a sefyllfa'r Gymraeg fel iaith a siaredir ym mhob cymuned yn y wlad
- gweinyddu dwyieithog
- cynlluniau iaith Gymraeg (sydd gan nifer o gynghorau cymuned)
- safonau'r Gymraeg sy'n deillio o Fesur y Gymraeg (er nad yw'r cynghorau

cymuned yn ddarostyngedig iddynt, mae’r safonau yn berthnasol i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru)

Cwestiwn 6: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Nodwch nhw yma:

/

Mae'r ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: